CADWALADR, ELLIS (fl. 1707-1740), bardd

Enw: Ellis Cadwaladr
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Eisteddfod; Barddoniaeth
Awdur: Elwyn Evans

Ganwyd yn Llandderfel, Meironnydd; preswyliai yn yr Hafod Uchel a bedyddiwyd plant iddo yn y plwyf. Canai yn y mesurau caeth ac yn y mesurau rhydd. Argraffwyd rhai o'i faledi yn y 18fed ganrif, e.e. *Cerdd i ofyn Pâr o Ddillad o Rôdd Pendefig*, a *Cerdd o barchedigaeth urddasol Watkin Williams Wynne, Esq.* Y mae pedwar o'i gyfansoddiadau yn *Blodeugerdd* (1759). Ymddengys oddi wrth ei ' Glod i Ferch,' sy'n cynnwys nifer o enwau clasurol, ei fod wedi cael addysg dda. Ceir nifer helaeth o'i ganeuon mewn llawysgrifau; cynnwys N.L.W. MS. 4971 tuag ugain.

Bu'n fuddugol yn eisteddfod y Bala, Llungwyn, 1738, yng nghystadleuaeth y gadair.

Awdur

Elwyn Evans

Ffynonellau

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

H. Blackwell, NLW MSS 9253A: A Dictionary of Welsh Biography

J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads printed in the 18th century* (1908-11)

gwybodaeth gan Mr. Evan Roberts, Llandderfel, o restrau'r plwy

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Ellis Cadwaladr

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732994

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu